

RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod rhithiol ddydd Mercher, 13 Ionawr 2021.

[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae dogfennau'r cyfarfod uchod ar gael ar wefan y Cyngor, ynghyd â gwe-ddarllediad byw o'r cyfarfod].

Yn bresennol: Cyngorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts a Robin Williams

Aelodau Lleol: Cynghorwyr Aled M.Jones (cais 7.2), Llinos Medi (cais 7.3). R.G.Parry, OBE FRAGS (cais 12.2), Alun Roberts (cais 12.1), Margaret Roberts a Ieuan Williams (cais 7.1)

Ymddiheuriadau Cynghorwyr John Griffith a Richard Owain Jones

Hefyd yn Bresennol: Cynghorwyr Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio), Cynghorwyr G.O.Jones, Bryan Owen

1:00 p.m. - 1:55 p.m.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2020 yn gofnod cywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIADAU SAFLE
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd fod cofnodion yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2020 yn gofnod cywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISIADAU'N CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 FPL/019/217 - Cais llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a 3 mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar dir ger Craig y Don Estate a Cherry Tree Close, Benllech.</p> <p>Penderfynwyd y dylid cynnal ymweliad safle rhithiol.</p> <p>7.2 FPL/2019/322 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd eglwys i annedd gyda adeiladu mynedfa cerbydau newydd yn Eglwys Crist/Christ Church, Rhosybol</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>7.3 FPL/2020/166 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeiladau allanol i 4 Uned Gwyliau yn Cymunod, Bryngwran, Caergybi.</p> <p>Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i ganiatau'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog a hynny am y rheswm a roddwyd.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIADAU AM DY FORDDIADWY
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a

	Gorchmynion.
--	---------------------

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	<p>12.1 TPO/2020/13 – Cais i dorri coed sydd wedi eu gwarchod gan Orchymyn Diogelu Coed yn Cae Isaf, Llansadwrn</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amod gynllunio sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>12.2 FPL/2020/150 – Cais llawn ar gyfer codi 9 ty ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ar dir yn Lôn Newydd, Llangefni</p> <p>Penderfynwyd -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y dylid cynnal ymweliad safle rhithiol yn achos y cais hwn • Bod pob ymweliad safle rhithiol mae'r Pwyllgor yn ei gynnal yn cael ei recordio fel mater o arfer. <p>12.3 MAO/2020/22 – Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan ganiatád cynllunio 19LPA1025E/CC/VAR er mwyn ychwanegu amod i sicrhau bod y dabtlygiad yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd ynghyd a diwygio dyluniad, lleoliad a deunydd adeiladu'r storfa finiau a'r standiau beics yn Neuadd y Farchnad, Stryd Stanley, Caergybi</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a

	Gorchmynion.
--	---------------------